# Argraff inc y teulu ar Wynedd ac ar Went
# SEREN Casnewydd a HERALD CAERNARFON

## MALDWYN THOMAS a'r Reesiaid anturus

JAMES Rees a'i feibion – dyna, mae'n debyg, oedd y drefn i fod ar lwyfan cyhoeddi ac argraffu yng Nghaernarfon yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac ymlaen – yr oedd yna bob gobaith am ddyfodol disglair ar un adeg – ymlaen i'n canrif ni.

Roedd sail y gobaith hwn wedi'i osod yn gynnar yn nhri degau'r hen ganrif pan ddaeth James Rees i Gaernarfon, a dechrau gweithio yn swyddfa y *Carnarvon Herald* ifanc.

Y fo oedd arolygydd y gwaith argraffu, a bu'n ceisio cael mymryn o drefn ar seilam o swyddfa, tasg hollol amhosibl, greda 'i, pan gofir am berchnogion cynnar yr *Herald* — Richard Mathias Preece o'r Bontfaen, radical achlysurol, cyn athro a phregethwr gwyllt yn niadelloedd y Wesleaid yn Arfon cyn iddo gael ei ddiarddel am glosio at gesail y Toriaid ac am yfed wyth a deugain o lwnc destunau yn y cinio dramatig hwnnw a gynhaliwyd i ddathlu'i flwyddyn yn faer y dref; William Potter, Tori ystrywgar o Gaer, a James Hens Bronsby o Ipswich, cyn weinidog Undodaidd, cyn athro ysgol a lleidr a oedd ar herw rhag heddlu sir Warwick cyn iddo ef, fel sawl un arall cynt ac wedyn, gael dinas noddfa yn nhref Caernarfon.

Fe fu bron iawn i'r *Herald* â mynd i'r wal yn 1835 ar ôl pedair blynedd o droedio trwsgwl ar y cloddiau gwleidyddol – weithiau'n cefnogi'r radicaliaid ac weithiau'n cefnogi'r Toriaid – dyma Preece a dacw Potter.

Ond fe wnaed James Rees yn un o'r partneriaid yn y cyfnod hwn, ac erbyn Ionawr 1836 y fo yn unig oedd yn argraffu ac yn cyhoeddi, ac yn ddramatig a ddi-lol dyma daflu'r *Carnarvon Herald* at y Radicaliaid ac at yr anghydffurfwyr Cymraeg – y 'Protestaniaid' oedd ei air o am y garfan hon.

Fe roddwyd teitl mwy ar y papur gan gynnwys *"and Denbigh"* ar ben y dudalen flaen yn ddatganiad, gor hyderus braidd, y byddai'r cyhoeddiad bellach yn newyddiadur ar gyfer rhan helaeth o dir mawr gogledd Cymru. Bu James Rees yn berchennog yr *Herald* Saesneg hyd ddiwedd Mehefin 1870.

* * *

YN YSTOD y blynyddoedd hir a gwyllt hyn fe fu James Rees yn argraffu ac yn cyhoeddi cannoedd o bethau yng Nghaernarfon, yn ogystal ag yn ymhel â nifer o gylchgronau Cymraeg. Y fo a fu'n argraffu:

**Y Seren Ogleddol** (misolyn, Meh – Gorff 1836),
**Y Drysorfa Hynafiaethol** (afreolaidd 1838 - 1842 ar y cyd efo John Jones, Llanrwst)
**Cylchgrawn Rhyddid,** (misolyn, Hyd 1840 Ebrill, 1842)
**Athraw Dirwestol** (misolyn, Hyd 1850- Rhag 1850)

James Rees oedd yn argraffu ac yn cyhoeddi **Yr Amaethydd,** Ion. 1845- Hyd. 1846), y misolyn hynod hwnnw a sefydlodd er mwyn hyrwyddo dulliau newydd o drin y tir, efo 'Caledfryn' – ie 'Caledfryn, yn olygydd.

Y papurau newydd oedd cariad mawr Rees, a'r *Caernarvon and Denbigh Herald* oedd y cyhoeddiad yn y swyddfa am flynyddoedd er mai cyfyng oedd ei gylchrediad. Erbyn blynyddoedd canol y ganrif yr oedd James Rees wedi dechrau argraffu a chyhoeddi nifer o argraffiadau lleol o'r papur hwn.

Yr oedd yn ddigon craff i weld bod y busnes pobol ddiarth yn dod ag elw i'r llygadog mentrus, ac ar gyfer marsiandïaeth estron gogledd orllewin Lloegr a wyliau yng Ngogledd Cymru, ac ysywaeth hefyd, ar gyfer y boblogaeth Saesneg ei hiaith a oedd yn tyfu yn nhrefi'r tywod ar hyd yr arfordir, y lansiodd James Rees yr argraffiadau arbennig hyn: *Mr and Mrs R Hardwick of Bootle, with their three daughters, the misses Hardwick, are resident at the 'Clwydian Villa' for the duration of the month of August.*

*Dyma bapurau'r tymor:*
*The Rhyl Record,* (wythnosolyn 1af 24 Gorff. 1852, tymor yr haf yn unig)
*The Rhyl Visitor* (wythnosolyn 1af 9 Mehefin 1857, tymor yr haf yn unig)
*The Llandudno Register* (wythnosolyn 1af 16 Meh. 1857, tymor yr haf i ddechrau, fe dyfodd wedyn yn glamp o bapur lleol wythnosol a gyhoeddid ar hyd y flwyddyn.
*The Llandudno Register and Herald,*
a *The Beaumaris Visitor,* (wythnosolyn 1af – 7 Gorff 1857, tymor yr haf yn unig.

Pinacl gyrfa James Rees oedd sefydlu **Yr Herald Cymreig – Cymraeg** ar 19 Mai 1855, gyda James Evans yn olygydd ifanc. Bu'r papur yn llwyddiant llachar o ran ei gynnwys, ei ddylanwad a'i gylchrediad.

Erbyn y cyfnod hwn yr oedd swyddfa'r Herald yn Feca y pererinion llenyddol a gwleidyddol Cymraeg, a deugain a mwy o ohebyddion a golygyddion ac argraffwyr yn gweithio yno.

Dyma etifeddiaeth James Rees i'w feibion.

* * *

ROEDD James Rees yn sicr yn bwriadu datblygu ei fusnes mawr yn deyrnas gyhoeddi deuluol erbyn 1850, a'i feibion – bump ohonyn nhw – oedd conglfeini y bwriadau hyn.

Ond yng nghanol y pumdegau prysur yn hanes yr **Herald** fe glywfwyd y gobeithion yn giaidd. Collwyd y pedwerydd o'r meibion Arthur Edward, bachgen bach chwech oed, yn Chwefror 1853.

Collwyd Walter John Rees aer y busnes yn un ar hugain oed, fis ynghynt, (C.D.H. 12.2.1853; 15.1.1853). Roedd enw'r etifedd yn arwyddocaol, John Walter oedd enw perchennog mawr *Times* Llundain yn y cyfnod hwn.

Ar ôl y colli fe aeth James Rees ati i roi profiad sylweddol o wahanol agweddau ar argraffu a chyhoeddi a newyddiadura i'w feibion eraill. James Wilmot Rees – roedd y 'Wilmot' yn enw teulu'r fam – oedd yr aer bellach, yno hefyd yn ddiweddarach yn dysgu'r crefftau yn y swyddfa yr oedd Thomas Llewelyn, y mwyaf dramatig o'r meibion, y fo oedd y trydydd mab, tra roedd yr ieuengaf o'r meibion Charles Herbert yn dal yn blentyn ifanc.

Mi fu Thomas Llewelyn Rees yn gymaint o ddyn busnes ag o ddyn papur newydd. Cafodd brofiad o waith cyhoeddi yn y swyddfa a bu'n olygydd y *Caernarvon and Denbigh Herald* am sbel. Yr oedd hefyd yn gwerthu hadau, yn fasnachwr amaethyddol yn y 'Corn Exchange' yn Stryd y Plas ac yn asiant teithio ar gyfer *The National Line*, cwmni a oedd yn cario pobol ar draws yr Iwerydd i America.

Y *National Line* oedd cwmni llongau ager mwya'r byd, yn ôl yr hysbysiad, ond er hynny yr oedd Thomas Llewelyn Rees hefyd yn gwerthu ysgwiriant bywyd ar delerau rhesymol i'r rhai a oedd am deithio yn y llongau mawr hynny.

Fe daflodd Thomas Llewelyn Rees ei hun i grochan gwleidyddol yr ardal – mae yna ddisgrifiadau ohono yn tanio'n ddychrynllyd o boeth ar y llwyfannau cyhoeddus adeg berw'r etholiadau a ddaeth yn sgîl Deddf Addysg 1870.

*"Gentleman"* ydi'r disgrifiad ohono ar gofrestr ei farwolaeth; fe'i collwyd i'r diciâu, ac yntau yn ŵr ifanc tair ar ddeg ar hugain oed ym Mawrth 1876.

Charles Herbert Rees, fel y crybwyllwyd oedd y fenga o'r meibion erbyn lansio'r **Herald** yn 1855. Fe'i ganwyd yn 1847, a bu yntau yn ei dro yn olygydd y *Caernarvon and Denbigh Herald* am gyfnod cyn iddo ef a'i bartner, James Evans, golygydd **Yr Herald Cymraeg,** gael hawlfraint y papur hwn gan ei dad a dechrau cyhoeddi'r **Herald** eu hunain ar 2 Gorffennaf 1869.

Bu Charles Herbert Rees yn rhan o'r cyhoeddi hyd 1875 – yn y flwyddyn honno fe ddaeth cyswllt teulu James Rees â holl fusnes Swyddfa'r **Herald** i ben. Twrnai fu'r mab wedyn.

* * *

YN ÔL felly at James Wilmot Rees, yr aer newydd yn 1853. Ugain oed oedd o pan ymddangosodd ei enw'n sydyn yng Nghasnewydd, Sir Fynwy, yn gyhoeddwr *The Newport Gazette* a lansiwyd mae'n debyg gyda chefnogaeth ariannol ei dad ar 3 Hydref 1857.

Fe welir esboniad posibl am hyn isod. Byrhoedlog fu dyddiau James Wilmot Rees yng Nghasnewydd y tro hwn, – erbyn Ionawr 1859 yr oedd yn ei ôl yng Nghaernarfon ac wrthi'n argraffu **Charles o'r Bala,** pythefnosolyn a oedd yn eiddo James Evans, **Yr Herald Cymraeg** a John Davies, "Gwyneddon".

Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf ar Ionawr 1859, ac argraffwyd ef yn rheolaidd yn swyddfa'r **Herald** hyd y rhifyn olaf ar 29 Rhagfyr yr un flwyddyn.

Ar gyfer yr Ysgol Sul y bwriadwyd **Charles o'r Bala,** doedd Nathaniel Cynhafal Jones, y golygydd na'r cyhoeddwyr hwythau ddim yn bwriadu cyflwyno newyddion ynddo, heblaw am gipolwg "ar symudiadau y Cymdeithasau Lenyddol, Dirwestol a Chrefyddol", (ibid, 1, 1.1.1859, 15).

Fe ddaeth y cylchgrawn i ben am fod sawl un yn teimlo bod y cyfan yn rhy Fethodistaidd, ac oherwydd anhawster ynglŷn â'i gyhoeddi fesul pythefnos – "mae y rhif pythefnos, rywfodd, yn rif amhenodol.... Newyddiadur wythnosol, a llyfr misol ydyw y drefn ag y mae Cymru wedi ymgynefino â hi", (ibid, 29.12.1859, ii)

Beth bynnag am hynny, yr

*I dud. 19*